# Arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau. Rhaid i chi allu canfod, cynnal a darparu gwybodaeth am yr amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio ar y cyd ag unigolion ac eraill i nodi gwasanaethau a chyfleusterau a fydd yn mynd i'r afael â chanlyniadau, dewisiadau ac anghenion
2. arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth ac adnoddau hygyrch i gefnogi unigolion ac eraill i adolygu gwasanaethau a chyfleusterau
3. datblygu systemau ar gyfer rheoli gwybodaeth sy'n ymwneud â gwasanaethau a chyfleusterau
4. monitro'r gwaith o ddewis a defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau
5. sicrhau bod asesiadau risg yn cael eu hadolygu neu eu cwblhau, a chefnogi unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau i gymryd risgiau cadarnhaol
6. caffael a chael gafael ar adnoddau i gefnogi unigolion ac eraill i ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau
7. sicrhau bod systemau ar waith i gefnogi â'r gwaith o werthuso gwasanaethau a chyfleusterau
8. sicrhau y rhoddir adborth i wasanaethau a chyfleusterau, gan nodi arferion da ac unrhyw newidiadau y bydd angen mynd i'r afael â nhw
9. cwblhau'r cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
10. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. yr ystod o wasanaethau a chyfleusterau sydd ar gael, a pham y gall fod angen i unigolion ac eraill ddefnyddio gwasanaethau a chyfleusterau
2. dylanwad diwylliant, cefndir a daliadau ysbrydol ar ddewis gwasanaethau a chyfleusterau ar gyfer unigolion ac eraill
3. mathau o systemau i reoli gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
4. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i ddod o hyd i wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau, a chyflwyno'r wybodaeth honno
5. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar y ddarpariaeth o wybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
6. sut mae cefnogi eraill i asesu risgiau a chefnogi unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau a chyfleusterau i gymryd risgiau cadarnhaol
7. sut mae darparu cyfleoedd i adolygu a gwerthuso gwasanaethau a chyfleusterau
8. sut mae darparu adborth gwerthuso i wasanaethau a chyfleusterau, a pham fod hyn yn bwysig
9. sut mae arwain ar ddefnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi unigolion ac eraill i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, a'u defnyddio
10. sut mae arwain o ran urddas, caredigrwydd a thosturi wrth gefnogi unigolion ac eraill i gael mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, a'u defnyddio
11. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol wrth ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
12. rôl gwasanaethau a chyfleusterau mewn perthynas â llesiant unigolion ac eraill
13. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
14. theorïau sy'n berthnasol i'r gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
15. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
16. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau
17. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

18. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau, a sut i fynd i'r afael â hyn
19. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD412

Arwain y gwaith o ddarparu gwybodaeth am wasanaethau a chyfleusterau

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD412 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Darparu Gwybodaeth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |